


Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Bethan Griffiths
bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 14
Dydd Mawrth 20^{fed} o Ebrill 2021

**PORTFFOLIO
FFCIA**

PORTFFOLIO FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH

- [Bydd eisiau uwchlwytho portffolio gyda thystiolaeth o'ch cymhwysedd yn y Gymraeg erbyn Ebrill 30. Dyma fideo yn esbonio beth i uwchlwytho a sut.](#)
- https://uowtsd-my.sharepoint.com/:u:/g/personal/lowri_lloyd_uwtsd_ac_uk/ESHZ3MDh4tpOo9yczTfG6PkBAzIYm_iI1vR39dd0PdHF2Q?e=my6dzV

CYNNWYS EICH PORTFFOLIO

- - tystiolaeth ysgrifenedig a allai gynnwys cynlluniau gwers neu adnoddau a baratowyd gennych yn ystod y flwyddyn
- - tasgau a osodwyd yn ystod sesiynau iaith Rhagoriaith, e.e. tasgau ysgrifennu/darllen/llafar
- - unrhyw dystiolaeth ffilm fu'n bosibl i chi gwblhau ar leoliad (gall hyn gynnwys gwersi anghydamserol) NEU wers mini meicro wedi'i ffilmio gyda chyd-fyfyrwyr
- - adfyfyriad ysgrifenedig ar eich defnydd o'r Gymraeg yn y dystiolaeth ffilm ynghyd â golwg strategol o'r modd y byddwch yn adeiladu ar eich profiadau a'ch defnydd o'r Gymraeg yn broffesiynol yn y dyfodol (hyd at 1000 gair).

CYNGOR PELLACH.

1. Sicrhewch fod pwrpas i bopeth rydych chi'n ei uwchlwytho fel tystiolaeth. Dylai naill ai ddangos eich bod yn datblygu llythrennedd y dysgwyr neu'n datblygu / gwella eich sgiliau iaith eich hun.
2. Yr Adfyfyriad (hyd at 1,000 o eiriau): Dyma eich cyfle i esbonio ble rydych chi ar y fframwaith. Does dim strwythur penodol ond gallwch chi son am:

Eich llwybr iaith personol

Sut mae eich Cymraeg wedi datblygu eleni

- Adfyfyrio ar y defnydd o'r Gymraeg yn y wers fideo
- Adfyfyrio ar eich profiadau eraill yn yr ysgol o ran y Gymraeg
- Son am eich sgiliau gwranddo, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg
- Sut gallwch chi ddatblygu eich sgiliau Cymraeg yn y dyfodol

3. Tystiolaeth ychwanegol: Cynlluniau gwersi, adnoddau gwreiddiol, tystiolaeth o asesu gwaith y dysgwyr, deunydd i ddangos eich bod yn ceisio datblygu eich Cymraeg, clipiau sain / ffilm ayb.

4. AD (Arddulliau dysgu): Sicrhewch bod eich arddulliau dysgu yn gwbl glir yn y cynlluniau gwersi. Nid strategaethau fel AAGD yn unig, ond **strategaethau a methodolegau i ddatblygu iaith y dysgwyr.**

Wythnos nesaf (27/4/21)
9-10 y.b.

Gwersi mini meicro 10
munud mewn grwpiau o 4 i
recordio gwers ar gyfer y
Fframwaith Cymhwysedd
laith

DISGWYLIADAU WYTHNOS NESAF

- Defnyddiwch eich darlith Gymraeg yr wythnos nesaf i recordio'r gwersi – mae hi ar yr amserlen yn barod!
- Os ydych chi wedi llwyddo recordio gwers yn barod yn yr ysgol, does dim rhaid i chi recordio gwers yr wythnos nesaf. OND, gallwch recordio gwers yr wythnos nesaf a'i chynnwys yn yr adran 'tystiolaeth ychwanegol'. Bydd pob dystiolaeth yn help, yn enwedig gyda'r adran AD!
- Disgwylir i bob un ohonoch fod yno ar gyfer y recordio, hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu recordio gwers eich hun. Bydd angen 'dysgwyr' ar eich cyd-fyfyrwyr, felly cefnogwch nhw!
- Cyfrifoldeb pob grŵp fydd trefnu'r cyfarfod a recordio'r gwersi ar MS Teams. Bydd y recordiadau yn mynd yn syth i'ch cyfrif 'Stream'.
- Sicrhewch bod y camerâu arno wrth i chi recordio!

CANLLAWIAU

Amserlen :

- Cyfrifoldeb bob grŵp fydd trefnu'r cyfarfod a sicrhau bod bob aelod yn derbyn gwahoddiad ac yn rhan ohono. Gellir pennu un o'r grŵp yn drefnydd er mwyn hwyluso hyn
- Os nad ydych yn gallu mynychu am ba bynnag reswm, rhaid hysbysu'r tiwtor o flaen llaw.

Manylion grwpio :

- Bydd 4 myfyriwr ym mhob grŵp
- O fewn bob grŵp, caiff bawb gyfle i fod yn 'athro/athrawes' unwaith, ac yn ddisgybl dair gwaith
- Y tiwtor fydd yn eich grwpio
- Chi fydd yn penderfynu o fewn eich grŵp ym mha drefn byddwch yn arwain.
- **Y sesiwn ddysgu :**
- Nid oes rhaid i chi recordio eich gwers. Mae hyn yn opsiynol.
- Os ydych yn dymuno recordio, pan fyddwch chi'n dysgu sicrhewch eich bod chi'n 'gyflwynydd', a'ch bod yn gwasgu'r botwm recordio ar y dechrau.
- Ar ddiwedd eich gwers, gwasgwch stop ac arbedwch y ffilm
- **Rhaid i bawb fod â'u camerau ar agor, a bod wedi sicrhau o flaen llaw bod eu camera a'u meicroffon yn gweithio**
- Does dim ots os yw eich gwers ychydig yn hirach na'r canllawiau, ond ceisiwch sicrhau nad yw yn rhy fyr neu'n rhy hir o lawer
- Fydd eich tiwtor ddim yn rhan o'r sesiwn, nac yn eich asesu ar y pryd. Byddant ar gael trwy e-bost yn ystod y cyfnod.

Y GRWPIAU

1

**Catrin John
Carys Hopley
Hannah Stephens
Meleri Jenkins**

2

**Llŷr Griffiths
Megan Lewis
Mared Powell
Gwenno Tully**

3

**Rhiannon Carruthers
Lois Green
Elliw Roberts**

4

**Heledd Jones
Carys Davies
Luned Jones
Rhodri Walters**